




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ministry
of Justice

Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Mehefin 2018





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Ministry
of Justice

Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Gellir gweld yr wybodaeth hon yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	3
Cefndir	4
Crynodeb o'r ymatebion	5
Ymatebion i gwestiynau penodol	6
Casgliad a chamau nesaf	19
Egwyddorion ymgynghori	20
Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad	21

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Mae'r ddogfen hon yn ymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Bydd yn cynnwys:

- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ymateb i'r materion a godwyd
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Gellir cael mwy o gopiâu o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â Dan Sweeney yn y cyfeiriad isod:

Tîm yr Iaith Gymraeg, Cydraddoldebau a Rheoleiddio Gwell
Gwasanaethau Dadansoddi
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
3.52, 102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill drwy'r post yn y cyfeiriad uchod.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Cefndir

1. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori "Cynllun Iaith Gymraeg" ar 8 Hydref 2014. Roedd yn gwahodd sylwadau ar Gynllun Iaith Gymraeg diwygiedig arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder (y "Cynllun"). Mae'r Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddor yn Adran 5 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sef y bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu Cyfiawnder yng Nghymru.
2. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben yn gynnar yn 2015. Gohiriwyd cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad oherwydd amseru'r Etholiad Cyffredinol ac yna yn sgil y newidiadau dilynol yn y Llywodraeth. Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad ei ohirio'n bellach wrth i'r Llywodraeth archwilio'r meysydd y gellid eu gwella o fewn y Cynlluniau adrannol oedd yn cael eu diwygio. Yn ogystal â hyn, ceisiodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder gael eglurhad ar ein rhwymedigaethau deddfwriaethol a sefydlwyd yn wreiddiol gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ond sy'n cael eu heffeithio gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ers hynny. Ar ben hynny, gwnaethom fanteisio ar y cyfle i gynnal trafodaethau pellach â Chomisiynydd y Gymraeg ac adrannau eraill y llywodraeth i gytuno ar y gwelliannau angenrheidiol i'n Cynllun diwygiedig.
3. Mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwyd, ein hymateb iddynt, a sut mae'r broses ymgynghori wedi dylanwadu ar y Cynllun diwygiedig. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

4. Daeth cyfanswm o dri deg pedwar o ymatebion i'r papur ymgynghori i law, ac roedd nifer ohonynt yn ymdrin â phwyntiau penodol. O'r rhain, roedd tair ar ddeg naill ai gan aelodau'r cyhoedd neu fusnesau preifat; deuddeg gan aelodau'r farnwriaeth gan gynnwys yr ynadaeth; pedwar gan Swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, Cymdeithas yr Ynadon a Chymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr; tri gan staff y Weinyddiaeth Cyfiawnder, ac un yr un gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, a Phwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg.
5. Gofynnwyd i ymatebwyr wneud sylwadau ar bob adran o'r Cynllun a chafodd yr ymatebion eu dadansoddi i weld p'un a oedd ymatebwyr yn:
 - Cytuno â'r ymrwymïadau arfaethedig yn y Cynllun
 - Cynnig gwelliannau neu ymagweddau newydd ar gyfer y Cynllun
 - Cefnogi datblygiad y Cynllun
6. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr wedi'u bodloni â'r Cynllun Iaith Gymraeg arfaethedig ac yn cytuno arno, gan gynnwys ei ymrwymïadau, yn ogystal â bod yn fodlon â'r broses ymgynghori.
7. Roedd y prif faterion a godwyd yn y sylwadau'n ymwneud â:
 - Sut mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio'n drefnus ac yn gyson â'i chyrrff cyflawni
 - Gweithredu'r prawf cymesuredd i ystyriaethau darparu gwasanaethau'n gyffredinol, ond yn benodol i raglenni TGCh a'r We
 - Y broses o recriwtio, gan gynnwys asesu swyddi gwag, hysbysiadau dwyieithog ar gyfer swyddi gwag, y farnwriaeth a'r galluedd ar gyfer lleoli barnwyr Cymraeg
 - Sut mae staff a'r rheini sy'n ymwneud â llunio polisïau a pharatoi cyfarwyddiadau yn ystyried y Cynllun, a sut mae effaith polisïau ar y Gymraeg yn cael ei hasesu
 - Y ddarpariaeth o drawsgrifiadau Cymraeg
8. Mae'r adran nesaf yn crynhoi'n fanylach y materion a godwyd gan yr ymatebwyr i gwestiynau'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymatebion y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dilyn ystyried y materion. Mae ein hymateb yn cynnwys sut rydym wedi newid a gwella ein Cynllun diwygiedig o ganlyniad i'r ymatebion a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad.

Ymatebion i gwestiynau penodol

Adran 1: Cyflwyniad

Cwestiwn 1.1

A ydych yn cytuno y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gael Cynllun Iaith Gymraeg?

Cwestiwn 1.2

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch a ddylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gael Cynllun Iaith Gymraeg.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno y dylai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gael Cynllun Iaith Gymraeg. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr ei bod yn briodol i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg ar gyfer y dinasyddion a'r sefydliadau sydd eu hangen. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno y dylai'r gwasanaethau fod yn destun i'r prawf cymesuredd, fodd bynnag, roedd hyn yn ymwneud yn benodol â chyfieithu dogfennau, hysbysiadau a chyhoeddiadau i'r Gymraeg.

Awgrymodd un ymatebwr fod y cymal "fel sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol" yn gwrthddweud yr egwyddor cydraddoldeb, ac roedd o'r farn y dylid dileu'r cymal hwn. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu pam bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) ynghyd â'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol oll heb eu cynnwys dan Gynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Yn ogystal, awgrymodd ymatebwyr y dylai pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder weithio'n agos â'i ganghennau cyflawni i sicrhau bod ymagwedd gyson a chydlynol yn cael ei mabwysiadu. Dylid annog yr asiantaethau a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'i sefydliadau cysylltiedig i weithredu a chydymffurfio â'r Cynllun, mewn egwyddor ac yn ymarferol, drwy gyfrwng eu polisiau eu hunain. O ran datblygu Cynlluniau Iaith Gymraeg eraill, dylai'r rhain adlewyrchu prif Gynllun y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Awgrymodd un ymatebwr fod y Gymraeg yn fwy perthnasol yng Ngogledd Cymru a De Orllewin Cymru yn hytrach na De Cymru.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i hymrwymo'n llawn i gyflawni ei chyfrifoldebau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Rydym wedi gwneud y cyflwyniad yn ein Cynllun diwygiedig yn glir i ddangos fod gennym ymrwymadau statudol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae ein Cynllun yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd i sicrhau ein bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal ein busnes a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod angen cael cydbwysedd ag ymarferoldeb a chymesuredd rhesymol wrth gyflawni'r rhwymedigaethau hyn.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi gweithredu ei Chynllun yn llwyddiannus ers 2010 drwy fabwysiadu'r ymagwedd a chyflwynir yn y canllawiau ynghylch bod yn "briodol ac yn ymarferol resymol" a gyflwynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym 1996 ar gyfer llunio cynlluniau iaith Gymraeg. Byddwn yn parhau i weithredu ymagwedd sy'n rhoi ystyriaeth i resymoldeb, cymesuredd a chost-effeithiolrwydd o ran gweithredu ein cyfrifoldebau dan y Cynllun hwn, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o fusnes a gwasanaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yng Nghymru'n cael eu darparu trwy brif gyrff cyflawni'r adran, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (sef y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd gynt), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM), yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, a'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol. Mae pob un o'r gyrff cyflawni hyn yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg eu hunain sydd wedi'u teilwra i'w meysydd penodol o ddarparu gwasanaethau. Mae pob un o'r Cynlluniau hyn hefyd wedi'u hunioni â gofynion Cynllun corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder i sicrhau cydymffurfiaeth o ran datblygu polisiâu hyd at gyflawni gweithredol.

Ers yr ymgynghoriad, rydym hefyd wedi ymgysylltu â Chyrrff Hyd Braich a Phartneriaid y Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy erthygl Cynllun Iaith Gymraeg ym Mwletin y Cyrff Hyd Braich i'w helpu i ddeall a chydymffurfio â threfniadau llywodraethu iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn fwy eglur.

Adran 2: Datblygu a gweithredu polisi

Cwestiwn 2.1

A ydych yn cytuno ar yr adran Datblygu a Gweithredu Polisi yn y Cynllun hwn?

Cwestiwn 2.2

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cynnig asesu effaith polisiâu ar siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn fodlon ag adran Datblygu a Gweithredu Polisi'r Cynllun.

Mynegodd un o'r ymatebwyr bryder ynghylch diffyg ystyriaeth fod y Gymraeg yn un o ieithoedd Ynys Prydain a'i diffyg argaeledd i siaradwyr Cymraeg yn ardaloedd eraill y DU.

Roedd ymatebwr arall yn cwestiynu sut, er enghraifft, y gallai'r cyfryngau Cymraeg gael gwybodaeth gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder pan fo angen, yn enwedig oherwydd nid yw pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu gwasanaethau yng Nghymru yn uniongyrchol.

Roedd ymatebwyr eraill yn awgrymu y dylai staff a chynghorwyr sy'n rhan o lunio polisiâu a pharatoi cyfarwyddiadau integreiddio'n well â Chynllun y Weinyddiaeth Cyfiawnder, a rhoi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg, sydd hefyd yn wir yn achos ein canghennau cyflawni.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Er nad yw pencadlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn darparu gwasanaethau yng Nghymru'n uniongyrchol, mae unrhyw ymholiadau a wneir i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder

gan y cyfryngau Cymraeg ynghylch materion sy'n cael eu goruchwyllo neu sy'n cael eu gwneud gan unrhyw un o'n canghennau cyflawni busnes oll yn cael eu cyfeirio at y maes busnes perthnasol, i sicrhau bod eu hymholiad yn cael ei hateb yn briodol.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i annog cysondeb yn ei hymagwedd ar y Cynlluniau Iaith Gymraeg sy'n cael eu gweithredu gan ei ganghennau cyflawni sydd â'u Chynlluniau eu hunain, neu wrthi'n eu datblygu. Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithredu safon ofynnol ar gyfer ein cyrff cyflawni. Er mwyn sicrhau cysondeb, byddwn yn rhoi arweiniad i'n canghennau cyflawni o ran gweithredu Cynlluniau iaith Gymraeg lle bo angen.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder eisoes yn cwmpasu gweithrediadau polisi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac mae Adran 2 y Cynllun diwygiedig yn datgan: "Byddwn yn sicrhau bod staff a chynghorwyr sy'n rhan o lunio polisiâu a pharatoi cyfarwyddiadau ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol ac is-deddfwriaeth newydd yn ystyried y cynllun hwn a'n rhwymedigaethau a chyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg".

O ganlyniad i ymatebion yr ymgynghoriad, rydym wedi dylunio a gweithredu Prawf Effaith ar y Gymraeg fel rhan o'r broses o ddiwygio a llunio polisiâu er mwyn annog gwneuthurwyr polisiâu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i fynd i'r afael ag ystyriaethau ieithyddol y Gymraeg ymhellach fyth. Bydd hyn yn helpu'r timau polisi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch perthnasedd y polisiâu a diwygiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried o ran y Gymraeg a darparu gwasanaethau i bobl Cymru.

Adran 3: Recriwtio

Cwestiwn 3.1 A ydych yn cytuno ar yr adran Recriwtio yn y Cynllun hwn?

Cwestiwn 3.2 Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu sicrhau bod ein prosesau recriwtio yn cydnabod ac yn ystyried y defnydd o'r Gymraeg.

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn fodlon ag adran Recriwtio'r Cynllun, cafwyd nifer o sylwadau a chwestiynau a oedd i ryw raddau'n ymdrin â materion tebyg, ond gyda safbwyntiau gwahanol.

Mae ymatebion ymgynghorai wedi'u trefnu mewn grwpiau isod yn ôl themâu'r broses recriwtio, ac mae ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn dilyn bob adran.

Prosesau Recriwtio Staff

Yn achos recriwtio staff drwy'r platform ar-lein 'Civil Service Recruitment', roedd un o'r ymatebwyr yn ystyried ei bod yn holl bwysig bod ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais am swydd yn y Gwasanaeth Sifil yn cael gwneud hynny yn Gymraeg, yn enwedig ar gyfer swyddi lle y nodir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y dylid parhau i hysbysebu swyddi'n ddwyieithog (yn Gymraeg a Saesneg) os yn ymarferol bosibl ar gyfer swyddi yng Nghymru ac, yn achos hysbysebion yn Lloegr ar gyfer swyddi lle mae gofyn i allu siarad Cymraeg, roedd un o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r rhain fod yn ddwyieithog hefyd.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Gan fod pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'i leoli yn Llundain yn bennaf, rydym yn recriwtio ar lefel genedlaethol ac yn hysbysebu yn Saesneg. Pan fyddwn yn recriwtio ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru, fodd bynnag, bydd y rhain yn cael eu hysbysebu'n ddwyieithog; bydd hysbysebion yn Gymraeg a chânt eu cynnwys mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

Mae'r system e-recriwtio 'World Careers Network (WCN)' bellach wedi'i gweithredu'n llwyr ar gyfer yr holl swyddi Gwasanaethau Sifil ledled Cymru a Lloegr. Mae'r platfform WCN yn gallu dangos swydd ddisgrifiadau yn Gymraeg a Saesneg, ar gyfer swyddi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd ymgeiswyr hefyd yn cael yr opsiwn i gael eu cyfweld yn y naill iaith neu'r llall. Yn achos swyddi sydd ddim wedi'u lleoli yng Nghymru, bydd y swydd ddisgrifiadau yn Saesneg fel rheol; fodd bynnag, gall ymgeiswyr ofyn i'r swydd ddisgrifiad gael ei chyfieithu i'r Gymraeg.

Asesu swyddi gwag

Roedd un o'r ymatebwyr yn gwahaniaethu rhwng yr ardaloedd yng Nghymru lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, ac ardaloedd eraill lle nad yw'n cael ei ystyried yn hanfodol. Nid a wnelo hunaniaeth Gymreig gref â'r rheini sy'n siarad Cymraeg yn unig, a dylai unrhyw broses recriwtio gydnabod hyn.

Gofynnodd un ymatebwr, os nad oedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn datgan bod Cymraeg yn hanfodol ar rhai o'r hysbysiadau swyddi, sut y gallwn ddarparu gwasanaethau Cymraeg heb siaradwyr dwyieithog, gan awgrymu na fyddai unrhyw gost ychwanegol am nodi bod siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer canran o swyddi.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Yn ystod y broses recriwtio staff yng Nghymru, mae'r rheolwr recriwtio'n ystyried a ddylai'r swydd gynnwys y maen prawf 'Cymraeg yn hanfodol' neu 'Cymraeg yn ddymunol', yn ôl gofynion yr iaith Gymraeg. Wrth ystyried y gofynion ar gyfer recriwtio barnwyr, mae gofynion yr iaith Gymraeg yn cael eu hasesu ac, yn fwy diweddar, rhaid bodloni maen prawf pellach ynghylch ymwybyddiaeth am faterion yng Nghymru.

Mae'r Cynllun diwygiedig yn cynnwys troednodiadau sy'n egluro y bydd yr unigolion neu gyrff gweinyddol sy'n rhan o unrhyw broses recriwtio'n gyfrifol am benderfynu p'un a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn "nodwedd ddymunol" ai peidio; ac y bydd penderfyniadau o'r fath hefyd yn dibynnu ar y swydd wag penodol a'i gofynion.

Er enghraifft, roedd proses o recriwtio Dirprwy Farnwr Rhanbarth blaenorol wedi'i seilio ar feini prawf ar gyfer ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru lle'r oedd meddu 'ar ddealltwriaeth, neu'r gallu i feithrin dealltwriaeth o'r system Gyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n briodol i Gymru a threfniadau datganoli Cymru' yn angenrheidiol.

O ran y broses, mae'r Pwyllgor Penodiadau Barnwrol yn penderfynu ar y dull asesu priodol. Er enghraifft, mewn cyfweiliadau, gofynnir cwestiynau i ymgeiswyr ar gyfer swyddi yng Nghymru sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddangos eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, ac mae'n bosib y gofynnir iddynt drafod rhai materion perthnasol. Wrth ateb y cwestiynau hyn mewn cyfweiliad ar gyfer swyddi yng Nghymru, asesir yr ymgeiswyr ar eu

teilyngdod a disgwylir iddynt gyflawni gradd foddhaol er mwyn ystyried eu hargymell am y swydd.

Mae'r Pwyllgor Penodiadau Barnwrol bellach wedi datblygu ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n esbonio sut maent yn bodloni gofynion yr iaith Gymraeg yn eu prosesau dethol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i <https://jac.judiciary.gov.uk/news/jacs-welsh-language-scheme-published>

Lleoli barnwyr Cymraeg eu hiaith

Awgrymodd yr ymatebwyr nad oedd digon o Farnwyr neu staff dwyieithog sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru i roi dewis iaith go iawn i'r cyhoedd o fewn y sector cyfiawnder troseddol; a bod cyfleusterau cyfieithu'n opsiwn cyfatebol gwael.

Er bod yr ymrwymiad a ddengys yn y Cynllun ar gyfer cefnogi galluedd dwyieithog y gwasanaethau barnwrol yn cael ei groesawu, cyfeiriwyd at un ardal yng Nghymru lle'r oedd tri o'r pedwar ynad Cymraeg e'u hiaith ar fin ymddeol. Awgrymwyd bod prinder ynadon neu glerc cod sy'n rhugl yn y Gymraeg wedi arwain at orfod dibynnu ar ofyn i dywyswyr llys gyfieithu gohebiaeth y llys.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod prinder barnwyr Cymraeg eu hiaith yng Nghymru. Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law, nid oes unrhyw achosion llys wedi'u gohirio oherwydd prinder barnwyr Cymraeg eu hiaith, ac nid oes unrhyw beth wedi dod i'r amlwg a fyddai'n nodi bod yna brinder barnwyr Cymraeg eu hiaith ar gael i ddirprwyo yn lle barnwyr eraill pan fo angen. Fodd bynnag, anfonwyd yr ymateb ynghylch y mater hwn i GLITEM i'w ystyried. Mae ymateb GLITEM isod.

Mae GLITEM yn gweithredu contract cyfieithu ar y pryd gyda Capita, ond hefyd yn gweithredu polisi cyfieithu arall y tu hwnt i'r contract hwnnw, sy'n galluogi darparu gwasanaeth lleol gwell. Hyd yn oed os caiff treial neu wrandawriad ei gynnal yn y Gymraeg, yn aml mae angen cyfleusterau cyfieithydd ar dystion, aelodau'r rheithgor ayb. Drwy ddefnyddio cyfarpar cyfieithu ar y pryd. Ni waeth beth yw nifer y barnwyr Cymraeg eu hiaith, ni fyddai'n osgoi'r angen i ddefnyddio cyfieithwyr Cymraeg mewn treialon Llys y Goron, oherwydd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth ar hyn o bryd sy'n sicrhau bod rheithgor dwyieithog llwyr ar achosion lle caiff tystiolaeth ei chyflwyno yn Gymraeg.

O ran yr ynadaeth, os oes angen mwy o ynadon dwyieithog ar Bwyllgorau Ymgynghorol yng Nghymru, gallant hysbysebu'r swyddi gwag fel "iaith Gymraeg yn hanfodol". Mae Pwyllgorau Ymgynghorol yng Nghymru wrthi'n ymgymryd â nifer o weithgareddau recriwtio sy'n cynnwys recriwtio 10 o ynadon newydd Cymraeg eu hiaith. Lle nad yw ynad ar y Fainc yn medru'r Gymraeg, yr arfer fel rheol yw defnyddio Protocol y Gymraeg (copïau ar gael o Uned Iaith Gymraeg GLITEM) er mwyn galluogi i'r achos barhau'n ddi-dor. Yn achos treialon, mae yna ddigon o ynadon ar bob Mainc i wrando treialon drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae gan ynadon awdurdodaeth genedlaethol y tu hwnt i'w maes cyfiawnder/mainc leol eu hunain, felly gellir galw ar ynadon Cymraeg eu hiaith, os oes angen, i ddelio ag unrhyw dreialon yn unrhyw le yng Nghymru.

Mae'r farnwriaeth broffesiynol Gymraeg ei hiaith, ar y cyd â'r Coleg Barnwrol, wedi cael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn gallu cynnal achosion lle defnyddir y Gymraeg.

Adran 4: Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Cwestiwn 4.1

A ydych yn cytuno ar yr adran Darparu Gwasanaethau i'r Cyhoedd yn y Cynllun hwn?

Cwestiwn 4.2

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu sicrhau bod ein darpariaethau ar gyfer gwasanaethau i'r cyhoedd a) yn ystyried a b) yn caniatáu hyblygrwydd o ran y defnydd o'r Gymraeg.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn fodlon â'r adran hon yn y Cynllun. Dywedodd un ymatebwr bod yr adran hon yn gadarnhaol, blaengar a gweithgar neilltuol a bod yr ymagwedd i'w gweld yn gytbwys ac wedi'i hystyried. Isod, rydym wedi crynhoi rhai o'r meysydd sydd wedi'u cynnwys mewn ymatebion eraill a dderbyniwyd ar sut roedd y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried, a chaniatáu hyblygrwydd, o ran defnyddio'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi cynnwys ein hymateb, gan gynnwys sut, lle bo'n briodol, rydym wedi addasu ein Cynllun newydd i ystyried sylwadau o'r fath.

Galwadau ffôn

Awgrymodd un ymatebwr y gellir ychwanegu opsiwn i drosglwyddo galwadau ffôn oddi wrth siaradwyr Cymraeg i'r Uned Iaith Gymraeg yn GLITEM neu ddefnyddio llinell ieithoedd. Roedd yr ymatebwr o'r farn y byddai hyn yn darparu gwasanaeth gwell o ran cydraddoldeb gwell, yn hytrach na gofyn i siaradwr Cymraeg ymdrechu fwy fyth i wneud ymholiad ysgrifenedig, pan mae'n bosib y gallai fod yn ymholiad syml iawn yn unig.

Awgrymodd Ymatebwr arall y dylai'r Cynllun hysbysu'r cyhoedd ynghylch pa wasanaethau fydd o bosib ar gael iddynt yn y Gymraeg yn y dyfodol. Oherwydd bod Llinell Ymholiadau'r Cyhoedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn wasanaeth a fydd yn cael ei gynnal gan Wasanaethau a Rennir y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr ar ran y Weinyddiaeth, awgrymwyd y dylid o bosib cyfeirio at hyn yn y Cynllun, a sut y byddai'n ymdrin ag unrhyw un sy'n dymuno siarad Cymraeg.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae Cynllun y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gynllun pencadlys corfforaethol sy'n adlewyrchu rhyngweithio cyfyngedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder â'r cyhoedd a'r ddarpariaeth gwasanaethau yng Nghymru. Yn 2013–14, nid oedd unrhyw alwadau ffôn i Linell Ymholiadau'r Cyhoedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'u cofnodi lle'r oedd y sawl oedd yn ffonio'n gofyn i siarad Cymraeg. Roedd hyn hefyd yn wir yn achos 2014–15 a 2015–16.

Ym mis Rhagfyr 2014, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ateb y galwadau ffôn a wnaed i Linell Ymholiadau'r Cyhoedd y Weinyddiaeth Cyfiawnder, i staff oedd wedi'u lleoli yng Nghymru, ac roedd lefel y gwasanaeth a gynigiwyd yn debyg i'r gorffennol.

Hefyd yn ystod 2014, bu Uned Iaith Gymraeg GLITEM yn trafod â chydweithwyr yn y Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch y posibilrwydd o sefydlu opsiwn oedd yn ailgyfeirio galwadau ffôn siaradwyr Cymraeg ar linell Ymholiadau'r Cyhoedd y Weinyddiaeth

Cyfiawnder i'r Uned Iaith Gymraeg. Er bod hyn wedi'i ystyried, ni ystyriwyd ei fod yn ymarferol yn sgil yr amrywiaeth o alwadau ffôn roedd Llinell Ymholiadau'r Cyhoedd yn ymdrin â hwy, gan gynnwys galwadau ffôn gan sefydliadau sy'n cael eu gweithredu neu eu goruchwyllo gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy.

Mae'r gwasanaeth ateb galwadau ffôn Gymraeg yng Nghymru yn cydymffurfio'n llwyr â Chynllun Iaith Gymraeg GLITEM. Ar y cyfan, bu canoli system ateb galwadau ffôn Cymraeg GLITEM yn yr Uned Iaith Gymraeg o fudd i siaradwyr y Gymraeg. Er enghraifft, gwelwyd lleihad yn y nifer o gwynion a dderbyniwyd ynghylch y sawl oedd yn ffonio'n methu â siarad Cymraeg wrth gysylltu â llysoedd a swyddfeydd GLITEM.

Cyhoeddiadau

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cwestiynu bod y Cynllun yn datgan ei fod yn caniatáu i fersiynau o Hysbysiadau i'r Wasg a chyhoeddiadau eraill oedd i'w cyhoeddi neu eu postio ar wefannau, yn Gymraeg "lle mae'r dyddiadau cau yn caniatáu" – yn lle ymrwymo i gynhyrchu fersiynau dwyieithog a chyhoeddiadau neu hysbysiadau i'r wasg yr un pryd ac o fewn 24 awr. Awgrymwyd y dylid o leiaf sefydlu amserlen benodol ar gyfer gwneud hyn.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Wrth ddelio â chyhoeddi fersiynau Cymraeg o Hysbysiadau i'r Wasg a chyhoeddi ar y wefan, caiff fersiynau Cymraeg eu cyhoeddi ar yr un pryd lle bo modd. Er hynny, ar rai adegau, pan fo angen cyhoeddi dogfen ar ddyddiad penodol neu ar amser penodol, a bod y dogfennau hynny'n cael eu newid ar y funud olaf ar frys, gall hyn achosi oedi o ran trefnu'r cyfieithiad a chyhoeddi'r fersiwn Gymraeg. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghoriad hwn, rydym wedi diwygio'r Cynllun i sicrhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gyhoeddi fersiwn Gymraeg cyn gynted â phosib mewn achosion neilltuol lle na ellir cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg ar yr un pryd, a bod hyn yn cael ei gyflawni cyn pen 5 diwrnod gwaith.

Trawsgrifiadau

Cafwyd sylwadau ynghylch sut mae'r ddarpariaeth o wasanaethau trawsgrifio i'r cyhoedd yn ystyried, ac yn caniatáu, hyblygrwydd o ran defnyddio'r Gymraeg.

Esboniodd un ymatebwr a fu'n gweithio i gwmni a oedd yn aelod o'r Panel Trawsgrifio ar Dâp ers iddo gychwyn mwy nag 20 mlynedd yn ôl, na ofynnwyd iddynt ddarparu trawsgrifiadau neu gyfieithiadau yn Gymraeg unwaith yn yr holl amser hwnnw. Nid oedd yn eglur p'un a fyddai darpar gleientiaid yn penodi cwmni Cymraeg fel eu trawsgrifiwr oherwydd eu lleoliad, neu gwmni wedi'i leoli y tu allan i Gymru.

Mewn perthynas ag achosion llys troseddol a gynhelir yn Gymraeg, awgrymodd ymatebwyr ei bod yn annhebygol y gallai trawsgrifwyr oedd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ddarparu trawsgrifiadau sain yn Gymraeg (yn hytrach na'u cyfieithu). Ystyriwyd bod hyn o bosib yn annheg i gwmnïau y tu allan i Gymru yn sgil costau ac ymgynghori â darparwyr gwasanaethau trawsgrifio.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae gwasanaeth Cyhoeddi a Thrawsgrifio'r Llys bellach ar waith ym mhob awdurdodaeth. Yn achos gwasanaethau trawsgrifio allanol, mae chwech o gyflenwyr rhanbarthol wedi'u

penodi. Y cyflenwr ar gyfer Cymru a De-orllewin Lloegr yw 'The Transcription Agency' a dylid cysylltu â nhw os oes angen trawsgrifiad Gymraeg. Mae'r ffurflen berthnasol Cais am Drawsgriadiad EX107 wedi'i diwygio'n briodol ac yn cynnwys cwestiwn (C9) ynghylch trawsgrifiadau Gymraeg.

Mae gwaith yn mynd rhagddi o adolygu polisïau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch gwasanaethau trawsgrifio cyn ymrwymo'n bellach â'r farchnad (a fydd o ganlyniad yn rhagflaenu ail-gystadlu i ennill contractau newydd) ac mae'n debygol y bydd gwrandawiadau Gymraeg yn llunio rhan o hyn.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan bartïon eraill

Cafwyd sylwadau ynghylch sut roedd y ddarpariaeth gwasanaethau ar ran y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan bartïon eraill yn ystyried, ac yn caniatáu hyblygrwydd, o ran defnyddio'r Gymraeg.

Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod baich diangen ar gwmnïau bychain sy'n cystadlu am gontractau'r Llywodraeth. Roedd hyn oherwydd eu bod yn ystyried nad yw'n ymarferol i gwmnïau llai gefnogi'r iaith Gymraeg yn gyfartal â Saesneg o ran y rhyngwyd, y ffôn a gwasanaethau cyfathrebu, oherwydd mewn rhai amgylchiadau prin yn unig y byddai angen y gwasanaethau hyn.

Yn achos rhai gwasanaethau a ddarperir gan gyflenwyr, tybiwyd bod costau darparu a chynnal gwasanaeth cyfwerth yn y Gymraeg yn cyfrannu'n sylweddol at eu costau gweithredu cyfan. Yna byddai angen naill ai trosglwyddo'r gost o fodloni gofynion gwasanaethau cwsmeriaid o'r fath i'r cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn gyfartal, neu o bosib codi ffi ychwanegol ar y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Er mwyn bod yn gyfartal a theg gyda'r busnesau bychain oedd yn cystadlu am gontractau'r llywodraeth, awgrymwyd y byddai'n well i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gynnal a darparu gwasanaethau cyfieithu Gymraeg yn ôl y gofyn.

Roedd un ymatebwr yn pwysleisio'r angen i freichiau cyflenwi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ystyried effaith eu penderfyniadau ar ddarparu gwasanaethau yng Nghymru yn unol â'r Cynllun. Er enghraifft, roedd angen ystyried anghenion yr iaith Gymraeg yn drylwyr ym mhenderfyniadau'r cyfnod cynnar o gynllunio carchar arfaethedig newydd yn Wrecsam, Gogledd Cymru.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Mae nifer o opsiynau ar gael i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o ran pecynnu gwasanaethau dan gontract, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau penodol ar wahân os oes angen. Ystyrir yr opsiynau yng nghyd-destun pob gofyniad, gan ystyried y rhwymedigaethau ar gontractwyr, lefel y defnydd a wneir o'r gwasanaeth a'r gost gysylltiedig â darparu'r gwasanaethau.

Wrth benderfynu sut mae contractau'n cael eu cwblhau a'u dyrranu, dylid ystyried effaith y gofynion ar fusnesau bach a'u gallu i wneud cynnig yng nghyd-destun bob gofyniad. Mae'r ystyriaethau hyn yn hysbysu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ynghylch y ffordd orau o lunio tendrau a chontractau i sicrhau eu bod yn gweithredu'r dull mwyaf effeithiol o fodloni anghenion yn ogystal â sicrhau cystadleuaeth deg ac agored.

O ganlyniad i ymatebion yr ymgynghoriad, mae'r Cynllun diwygiedig hefyd wedi'i newid i adlewyrchu y bydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Rheoli Contractau a Masnach y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn sicrhau cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ogystal â Chynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, neu gynllun priodol y canghennau cyflawni priodol. Mae hyn yn berthnasol i bob contract newydd, a gwasanaethau sy'n cael eu contractio, lle mae gwasanaethau cyhoeddus am gael eu cyflenwi yng Nghymru ac/neu i siaradwyr Cymraeg yn Lloegr.

Yn ystod y broses o sefydlu carchar Berwyn yn Wrecsam, sicrhodd y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr¹ fod cydraddoldeb o ran iaith yng nghontractau'r darparwyr yn ogystal â monitro priodol. Sicrhodd y Weinyddiaeth Cyfiawnder fod yr holl gontractau ar gyfer darparu gwasanaethau'n gyson â'r Cynllun.

Agorwyd Carchar Ei Mawrhydi Berwyn ym mis Chwefror 2017, a gwahoddwyd y Wasg am daith lawn o amgylch y carchar a gynhaliwyd yn ddwyieithog; ac mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru yn darparu 'Gwasanaethau Drwy'r Giât' i droseddwyr. Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi wedi cyhoeddi arweiniad gweithredol yn ddiweddar ar 'Dadansoddiad Cydraddoldeb' (PSI 20/2016) gydag ymrwymiad newydd i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyson yng nghyd-destun diwygio a dadreoleiddio carchardai. Gellir dod o hyd i'r arweiniad llawn drwy glicio ar y ddolen isod: <https://intranet.noms.gsi.gov.uk/policies-and-subjects/policy-and-instructions/psi-2016-20>

Mae sgiliau iaith Gymraeg wedi'u rhestru fel nodwedd ddymunol o ran recriwtio staff. Mae cofleidio'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel un o werthoedd craidd Berwyn wedi helpu i ganoli holl feysydd y ddarpariaeth yn y sefydliad cyfan. Mae Carchar Ei Mawrhydi Berwyn yn cofnodi'r nifer o ymgeiswyr llwyddiannus sy'n medru'r Gymraeg, fel rhan o holiadur sgiliau a anfonir at bob aelod o staff. Bydd hyn yn cofnodi nifer y staff sydd wedi datgan eu bod yn siarad Cymraeg.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i sicrhau bod y gwasanaethau mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn cynnig dewis a chydaddoldeb ieithyddol go iawn rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Fel sy'n wir am garchardai sy'n dal carcharorion sy'n siarad y Gymraeg, er enghraifft, mae gwybodaeth ymsefydlu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yng Ngharchar newydd Gogledd Cymru yn Wrecsam, hysbysir y carcharorion bod yr wybodaeth ar gael iddynt yn y Gymraeg yn ogystal â'u hawliau a gweithdrefnau ar gyfer ysgrifennu llythyrau, gwneud galwadau a ffôn ac ymweliadau'n cael eu cynnal yn Gymraeg. Rydym hefyd yn disgwyl i staff y carchar adlewyrchu demograffig Gogledd Cymru gan gynnwys cyfran o siaradwyr y Gymraeg.

Darperir Technoleg Mewn-Ystafell ddwyieithog i'r holl garcharorion yng Ngharchar Ei Mawrhydi Berwyn. Mae hyn yn eu galluogi i gael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau. Bydd unrhyw dechnoleg o'r fath yn cael ei chynhyrchu yn y Gymraeg drwy weithio ar y cyd â'r Uned Iaith Gymraeg. Hefyd, mae carchardai eraill yng Nghymru yn darparu hafan ddigidol sy'n galluogi'r dynion i gael mynediad at wybodaeth, er enghraifft, gwybodaeth ddefnyddiol am eu 'noson gyntaf yn y ddalfa'. Mae'r hafan ddigidol ar gael yn y Gymraeg yn ogystal ag amrywiaeth eang o ieithoedd eraill. Yn achos contractau gwasanaethau ieithyddol newydd, a sefydlwyd ar 31 Hydref 2016 ac sy'n dod i ben ar 30 Hydref 2020, mae'n ofynnol yn ôl y contract bod y gwasanaeth archebu ar gael yn y

¹ Ers mis Ebrill 2017, mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) bellach yn cael ei alw'n Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM.

Gymraeg wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Mae'r archeb yn caniatáu i gyfieithydd Cymraeg gael ei ddefnyddio yn y sector gyfiawnder.

Gwefannau

Roedd gan nifer o ymatebwyr syniadau ynghylch sut i wella gwefannau sy'n ymdrin â darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd.

Ym marn un o'r ymatebwyr, nid oedd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal ym mhob un o'r sefydliadau sy'n cael eu noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, neu'n gysylltiedig â'r Weinyddiaeth e.e. diffyg fersiynau Cymraeg o reolau'r llys a phapurau ymgynghori; ac nid oedd profion cymhwyso ar-lein Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn galluogi ceisiadau Cymraeg.

Roedd darpariaethau gwefannau yn y cynllun iaith Gymraeg wedi'u cymhwyso ac fe ystyriwyd eu bod yn bodloni'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weithredu busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Er y bydd papurau sydd wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg ar gael, bydd y rhain ar gael ar y wefan Saesneg yn unig, a hynny pan mae'n ymarferol bosib yn unig, ac yn seiliedig ar 'angen y defnyddwyr'.

Ystyriwyd ei bod yn bwysig i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder amlygu pwy sy'n asesu'r galw arfaethedig neu gylchredediad cyfyngedig yn ogystal â'r meini prawf sy'n cael eu cymhwyso, gan gynnwys pwy ymgynghorwyd â hwy i gynnig mewnbwn e.e. y Farnwriaeth neu'r Cyfarwyddwyr Cyflawni perthnasol yng Nghymru. Dylid amlygu unrhyw achos o beidio â bodloni'r egwyddor o gydraddoldeb. Awgrymwyd hefyd y dylai'r wefan fod yn hollol ddwyieithog, neu fel arall bydd defnyddwyr yn dewis darllen y fersiwn Saesneg yn unig os nad yw pob tudalen ar gael yn ddwyieithog.

Awgrymwyd ymhellach, gan fod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn rheoli ei deunydd corfforaethol ar GOV.UK, y dylid cynnwys datganiad sy'n cyhoeddi y bydd yr holl ddeunydd corfforaethol ar gael yn Gymraeg ar GOV.UK os yw'n berthnasol, yn lle gweithredu'r angen i gyfiawnhau cyfieithu deunydd i'r Gymraeg yn ôl y galw.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Rydym yn cytuno bod angen gwella'r ffordd mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyhoeddi ei deunydd Cymraeg ar ei thudalennau ar wefan GOV.UK, ac rydym yn cymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd. Rydym wedi newid ein Cynllun diwygiedig i adlewyrchu hyn fel y nodir isod.

Mae holl wefannau adrannau'r llywodraeth wedi'u cyfuno ar wefan GOV.UK sy'n cael ei rheoli gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth (rhan o Swyddfa'r Cabinet). Mae GOV.UK yn casglu a chyhoeddi gwybodaeth ac argaeledd gwasanaethau pob adran llywodraeth y DU yn ogystal â channoedd o gyrrff hyd braich ynghyd mewn un lle. Mae Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn blaenoriaethu cyfieithu deunydd GOV.UK i'r Gymraeg ar sail cryfder anghenion y defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r deunydd a'r safonau golygyddol o fewn y gwasanaeth yn ogystal â meysydd gwybodaeth 'prif ffrwd' GOV.UK yn cael ei ysgrifennu a'i gyhoeddi gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth, yn dilyn gwirio cyflym gan arbenigwyr mewn adrannau ac asiantaethau. Mae'r deunydd ar gyfer y cyhoedd ac yn seiliedig ar dystiolaeth o anghenion y defnyddwyr. Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gweithio gyda Gwasanaethau Digidol y

Llywodraeth i sicrhau bod gwybodaeth a deunydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder sy'n ymwneud â'r agweddau o'n busnes a'n gwasanaethau a ddefnyddir fwyaf, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn y deunydd 'prif ffrwd' hwn ar GOV.UK.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn gyfrifol am benderfynu pa ddeunydd 'adrannol a pholisi' sydd angen ei gyfieithu ar GOV.UK; trefnu cyfieithiad o ansawdd; a diweddarau'r deunydd Cymraeg ar y wefan a sicrhau ei fod yn gywir. Ar gyfer meysydd 'adran a pholisi' deunydd gwefan gorfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar GOV.UK, byddwn yn cyhoeddi'r deunydd Cymraeg yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, gan gynnwys papurau ymgynghori polisi perthnasol. Bydd swyddogion yn defnyddio'r system sgorio dryloyw, a gyflwynir yn Atodiad B a C yn ein Cynllun diwygiedig, ar gyfer cyfieithu ffurflenni a dogfennau electronig. Bydd ein Prawf Effaith ar y Gymraeg a ddyluniwyd yn ddiweddar hefyd yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gynnar yn achos cynigion polisiau ac ymgynghoriadau, gan gynnwys eu cyfieithu, yn seiliedig ar dystiolaeth o effaith ledled Cymru.

Wrth ddylunio unrhyw wefan newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau cyfredol, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar 'Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyriaethau'r Iaith Gymraeg' a'r nodyn cyngor ar Egwyddorion Meddalwedd Ddwylieithog ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch datblygu gwefannau. Lle bynnag y gallwn, neu lle bo'n briodol, byddwn yn cynnwys fersiynau o dudalennau rhyngweithiol ar ein gwefan.

Os bydd fersiwn Gymraeg o gyhoeddiad yn cael ei gyhoeddi, byddwn yn gwneud hynny ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg pan fo'r dyddiad cau yn caniatáu hynny. Mewn amgylchiadau neilltuol lle nad yw hyn yn bosib, bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg cyn gynted â phosib ar ôl hynny ac yn bendant cyn pen 10 diwrnod gwaith.

Mae argaeledd fersiynau Cymraeg o reolau'r llys yn fater i'w ystyried gan yr holl Bwyllgorau perthnasol, a'r sawl sy'n gyfrifol am y rheolau e.e. Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol (sydd ddim yn Bwyllgor GLITEM).

Yn achos y profion cymhwyso barnwrol, mae'r Pwyllgor Penodiadau Barnwrol bellach wedi datblygu ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sy'n esbonio sut mae'r Pwyllgor Penodiadau Barnwrol yn gweithredu gofynion y Gymraeg yn ei brosesau dethol. I gael mwy o wybodaeth, ewch i https://jac.judiciary.gov.uk/sites/default/files/sync/about_the_jac/welsh-language-scheme-cymru.pdf

O hyn ymlaen, bydd y Pwyllgor Penodiadau Barnwrol yn disgwyl i bob ymgeisydd ar gyfer swyddi barnwrol gadarnhau p'un a ydynt yn siarad Cymraeg adeg gwneud y cais, hyd yn oed os nad oedd y Gymraeg yn un o ofynion y swydd wag.

O ran gwella effeithiolrwydd y cynllun diwygiedig, rydym wedi'i atgyfnerthu i gynnwys ymgynghori â Chyfarwyddwr Cyflawni Cymru GLITEM, sy'n Ddaliwr Allweddol i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder o ran materion yr iaith Gymraeg, ar gyfer arweiniad fel sy'n briodol.

Technoleg Gwybodaeth

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys awgrymiadau ar sut y gallai Technoleg Gwybodaeth newydd ddarparu gwasanaeth dwyieithog fel rheol.

Awgrymwyd y gallai'r cynllun gynnwys datganiad polisi sy'n nodi y dylai'r safle sylfaenol ar gyfer mentrau polisi newydd a llwyfannau TGCh a ddatblygir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder gynnwys gweithredoedd dwyieithog. Yr Uwch-swyddog Cyfrifol neu'r Rheolwr Prosiect yn unig a fyddai'n cael newid y safle hwn ar sail rhesymoldeb a chymesuredd.

Roedd un ymatebwr o'r farn fod gwaith Tîm Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cael effaith fawr ar sut mae rhai o'r asiantaethau cysylltiedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyflawni gwasanaethau dwyieithog yn eu Cynlluniau eu hunain. Awgrymwyd bod angen datganiad o fwriad cryfach o ran datblygu llwyfannau TGCh yn y dyfodol, gan ddechrau gyda llwyfan ddwyieithog fel rheol.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Wrth i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ddatblygu a chyflenwi systemau a chynnyrch TGCh newydd neu ddiweddarau'r rhai cyfredol, byddwn yn asesu'r gofynion ieithyddol o ran y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.

Wrth ddylunio unrhyw wefannau newydd, neu ailddatblygu ein gwefannau cyfredol, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ystyried arweiniad Comisiynydd y Gymraeg ar 'Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyriaethau'r Iaith Gymraeg' a'r nodyn cyngor ar Egwyddorion Meddalwedd Ddwyieithog ac unrhyw arweiniad arall a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch datblygu gwefannau.

Mae Technoleg y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu darparu gwasanaethau dwyieithog cyn belled ag y mae o fewn ei gallu i wneud hynny a chyn belled ag y mae'n berthnasol i'r amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol y maes busnes perthnasol sy'n gyfrifol am ddeunydd y llwyfannau TGCh (yn hytrach na'r dechnoleg gysylltiedig), a bydd angen i'r maes hwnnw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae Adran Gwasanaethau Digidol y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi rhoi blaenoriaeth i'r gwasanaethau trafodiadol hynny sydd gyda'r anghenion defnyddwyr fwyaf ar sail dystiolaeth ac yn eu nodi fel prosiectau 'enghreifftiol' ar GOV.UK. Mae hyn yn cydweddu ag ymagwedd anghenion defnyddwyr GOV.UK (mae'n bosib nad oedd rhai o'r gwasanaethau hyn yn bodoli ar justice.gov.uk <<http://justice.gov.uk>>). Mae enghreifftiau o'r prosiectau hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch Atwrneiaeth Arhosol a Threfnu Ymweliadau â'r Carchar.

Adran 5: Gweithredu, monitro a chyhoeddi'r Cynllun

Cwestiwn 5.1.

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych ynghylch y ffordd y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu gweithredu, monitro ac adrodd ar y Cynllun hwn.

Ymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Iaith Gymraeg

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer Gweithredu, Monitro a Chyhoeddi'r Cynllun.

Nododd un o'r ymatebwyr fod un pwynt yn cyfeirio at "monitro gweithrediad y Cynllun hwn" ond nid yw'n egluro sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

Nododd ymatebwr arall fod y Cynllun yn dal i ffafrio'r Saesneg mewn materion Cymraeg, er y dylid trin y ddwy iaith yn gyfartal.

Dywedodd ymatebwr arall fod adran 5 y Cynllun yn gynhwysfawr.

Ymateb y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Rydym wedi newid y testun yn y Cynllun diwygiedig i esbonio y byddwn yn monitro gweithrediad y cynllun drwy weithgareddau a nodir yn y Cynllun Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad D y Cynllun diwygiedig. Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder hefyd wedi ychwanegu manylion i'r Cynllun diwygiedig ynghylch sut y byddwn yn hysbysebu'r cyhoeddiad hwn i gynulleidfa fwy eang o randdeiliaid.

Fel rhan o fonitro gweithrediad y Cynllun, bob blwyddyn, bydd pencadlys corfforaethol y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n amlygu'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Casgliad a chamau nesaf

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r papur ymgynghori. Ystyriwyd yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn ofalus a'u cynnwys yn y Cynllun diwygiedig, lle bo hynny'n briodol. Mae Cynllun diwygiedig yr adran, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu, wedi'i gyhoeddi ar y cyd â'r ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Rydym yn parhau i gydnabod pwysigrwydd, arwyddocâd diwylliannol a gwerth yr iaith Gymraeg.

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i welliannau o ran sut rydym yn bodloni anghenion y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio ein gwasanaethau yng Nghymru. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn bodloni'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ein gwasanaethau corfforaethol ac wrth weithredu busnes corfforaethol gyda'r cyhoedd yng Nghymru wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio'r ymagwedd hon ar gyfer amgylchiadau penodol yn y modd mwyaf priodol a rhesymol ymarferol.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i weithio gyda'i ganghennau cyflawni i greu arferion cyson a chydlynol sy'n gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru. Ar hyn o bryd, rydym yn ehangu ein Rhwydwaith o Gydlynwyr y Gymraeg o ran cyflawni'r nod hwn.

Rydym yn awyddus i wella'n barhaus sut rydym yn bodloni anghenion y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio ein gwasanaethau a busnesau yng Nghymru. Rydym yn croesawu unrhyw syniadau pellach ynghylch sut i wneud yn siur bod hyn yn digwydd.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth, wedi'u nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr yr ymgynghoriad

1. Dylan Hughes – ymatebwr preifat, Caerdydd
2. Anne Perkins – Beverley F. Nunnery & Co., Trawsgrifwyr Swyddogol y Llys
3. Paul Anderson – Gram UK Ltd
4. Anthony Walsh – Technologydd Pensaeriol Siartredig
5. Sarah Jane Trevor – Gwasanaeth Trawsgrifio Gwasanaethau Cyfreithiol, Exeter
6. Paul Davies – Contractau Llywodraeth Ganolog, Liberata UK Ltd
7. Kim Brown – Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Caerdydd
8. Aileen Hodgkins – Cater Walsh Reporting Ltd
9. Y Barnwr Rhanbarth Harold Godwin
10. Y Barnwr Cyflogaeth Roger Harper
11. Mike Garland, Excel Civil Enforcement Ltd.
12. Jo Easton – Cymdeithas yr Ynadon
13. Gregory Bull, ymatebwr preifat
14. Cheryl-Anne Sanderson – G4S Facilities Management
15. Kay Powell – Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
16. Y Barnwr Anwen Elizabeth Walker – Barnwr Mewnfudo sy'n derbyn ffi
17. Ei Anrhydedd y Barnwr David Wynn Morgan – Barnwr Cylchdaith
18. Lisa Withington – Partner Busnes Cydymffurfiaeth a Risg Contractau (BASS)
19. Elizabeth Ward – (ar ran Mr Winston Roddick CB CF, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru)
20. Nick Rossiter – Cyfarwyddwr Datblygu Busnes, Registry Trust Limited
21. Y Dirprwy Farnwr Rhanbarth Susan Ead
22. Douglas Hughes Jones Y.H. – Mainc Sir y Fflint
23. Alex Ford – Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol
24. Adrian Glen – Parc Busnes Suttons
25. David Subacchi – Mainc Sir Ddinbych
26. Gaynor Lloyd – Siambrau SJB
27. Richard Morris – Mainc Ynadon Gwent
28. Barnwr Rhanbarth Tribiwnlys Peter Maddox
29. Ei Hanrhydedd y Barnwr Mererid Edwards – Barnwr Cylchdaith
30. Ei Anrhydedd y Barnwr David Wynn Rees – Barnwr Cylchdaith wedi ymddeol
31. Ray Burningham – Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru
32. Hywel Hughes – Uned yr iaith Gymraeg, GLITEM

33. Karys Thomas – Swyddog Cymorth, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

34. Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar yr Iaith Gymraeg

35. John Randall, Courtel Communications, Egham

Yn ogystal â'r ymatebwyr uchod, dymuna'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gydnabod a diolch i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am eu cymorth a'u cyngor yn ystod y diwygiadau i'n Cynllun Iaith Gymraeg.



© Hawlfraint y Goron 2018

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen drwy e-bostio
MOJWLSrevision@justice.gsi.gov.uk